

Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig 1851-1900

Dilyniant yw'r gwaith hwn, y disgwylir ei gyhoeddi gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn y dyfodol agos, i *Llyfryddiaeth cylchgronau Cymreig, 1735-1850* a gyhoeddwyd ym 1993. Bydd y gyfrol yn rhestru ac yn disgrifio'r cylchgronau Cymraeg a Chymreig a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd rhwng 1851 a 1900. Mewn gair o ragymadrodd i'r gyfrol gyntaf, dywedwyd bod y gwaith o lunio'r ail gyfrol 'yn mynd yn ei flaen'. Aeth wyth mlynedd heibio yn y cyfamer cyn dilyn y gyfrol hon i olau dydd, a mawr fu'r holi yn ei chylch gan ysgolheigion, ymchwilyr a chydweithwyr yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Y mae'r rhesymau am yr oedi yn lleng. Yn gyntaf, ni sylweddolwyd cymaint o gylchgronau a sefydlwyd rhwng 1851 a 1900, a'r rheini'n cwmpasu pob math o destunau. Fel y gwelir yn y gyfrol hon, sefydlwyd degau lawer o gylchgronau plwyf yn ystod chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a thasg anodd, onid digalon yn wir ar brydiau, fu ceisio olrhain copïau o'r defnyddiau hyn. Yn ail, yn dilyn ad-drefnu Adran y Llyfrau Printiedig ym 1994, bu cynnydd sylweddol yn fy nghyfrifoldebau innau, a bu'n rhaid imi ymgymryd ag amryfal ddyletswyddau eraill. Ni bu'n bosib imi felly, roi pob gewyn ar waith na gweithio'n amser llawn ar *Llyfryddiaeth cylchgronau Cymreig*, a bu'r gwaith o'i chynnull, o ganlyniad, yn segur am rai cyfnodau byrion. Gymaint â hynny o *apologia* dros yr oedi cyn ymddangos o'r ail gyfrol hon.

Bydd y llyfryddiaeth hon yn dilyn yr un patrwm, fwy neu lai, â'r gyfrol gyntaf. Hwyrach y tâl inni ein hatgoffa ein hunain o brif nodweddion a threfn y gwaith yn y fan hon. Yr hyn a geir yma yw rhestr ddisgrifiadol o gylchgronau a gyhoeddwyd yng Nghymru, neu gylchgronau ag iddynt gysylltiadau Cymreig a gyhoeddwyd yn Lloegr ac mewn gwledydd eraill, wedi eu trefnu yn ôl yr wyddor Gymraeg. I bwrpas y llyfryddiaeth hon diffinnir cylchgrawn fel cyhoeddiad y bwriadwyd iddo ymddangos, er dyddiad ei sefydlu, am gyfnod amhenodol. O ran amllder cyhoeddi, cynrychiolir yma gyhoeddiadau wythnosol, pythefnosol, misol, daufisol, trimisol, chwarterol, hanner blyneddol, blyneddol ac achlysurol. Ni chynhwysir newyddiaduron, almanaciau na llyfrau a gyhoeddwyd fel rhan o gyfresi nac mewn rhannau. Mae'n wir serch hynny, y ceir rhai cyfnodolion yn y llyfryddiaeth y gellir eu hystyried yn newyddiaduron, megis *Y Ddraig Goch* (Lerpwl, 1862), er enghraifft. Cynhwyswyd yr eitemau hyn am eu bod yn deitlau eithriadol brin, nad oes gofnod amdanynt mewn na llyfryddiaeth, rhestr na chatalog cyhoeddedig o unrhyw fath.

Achosodd rhai mathau o gyfnodolion a ddisgrifir yn y llyfryddiaeth anawsterau mawr, yn enwedig cylchgronau plwyf ac eglwysig, cylchgronau capeli ac ysgolion, a chyhoeddiadau lleol tebyg. Gwnaed ymdrech arbennig i geisio dod o hyd i'r defnyddiau hyn mewn nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys llyfrgelloedd ac archifdai lleol, ond gwyddys bod nifer o deitlau eto i'w darganfod. Gwyddys hefyd bod ym mediant clerigwyr ac offeiriad nifer o blwyfi led-led Cymru gasgliadau o gylchgronau plwyf, ond ni bu'n ymarferol imi ohebu â'r gwyrdia hyn, a chyfyngais fy ymchwil i'r prif lyfrgelloedd a'r archifdai lleol. Ymwelwyd â nifer fawr o sefydliadau yng Nghymru a Lloegr, a llythyrwyd ag archifyddion a llyfrgellwyr yn y Taleithiau Unedig, yn y Wladfa ym

Mhatagonia, ac yn Awstralia.

Ceir pump o fnygeion i gynnwys y llyfryddiaeth hon, sy'n dilyn trefn yr wyddor Gymraeg, ond gyda rhai eithriadau. Mae'r tri mynegai cyntaf yn rhestru enwau golygyddion ac awduron, cyhoeddwy'r ac argraffwyr. Rhestrir pob un o'r rhain wrth eu henwau priod, er bod nifer ohonynt yn fwy adnabyddus wrth eu ffugenwau. Darperir

Y Brud a Sylwydd.

Rhif I. IONAWR 15, 1828. [Cyr. I.]

RHAGYMDRODD.

ER, tybygem, y canfydda pob un, ond lleoedd ar y dalonau canlynol, na chychwyrir y Cyhoeddiad hwn heb anghen am ei gyfelyb, neu heb ddiben gwell nag i dynu arian oddiwrth ein cydwladyr; etto, nid afreidiol yw galw ystyriaethu ein darllenwyr yn fwy penodol at ddyfynion ac achlysurol o ein Cyhoeddiad, gyda golwg ar ereill a'r rhagfaint. Yn lle ychwanegu at nifer y cyhoeddiadau llosg sydd yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ysgafnau logell, a cham-ddenyddio amser gwerthfawr eu darllenwyr, gobethiwn yu hyderus y llywyddia ein hmdreth yn gystal er cynnyrch i'w amlad i gysaron ac i gylleusterau, ag er cynnydd i ddwyddioldeb amser ein holl ddarlleuwr, ond yn enwedig y tleofa o honnynt; ac ar un pryd er castrau sail y gobath a adawyd i ddyfynion pechadurus, am rad, daioni, a nawdd Daw yn Nghrist, mal Llywodraethwr y byd, ac Awdur Iechydswriaeth. Y mae yn ddwyddiol cyffredin, bod gormod o Cyhoeddiadau cyfrol yn awr yu Nghymru. Nid oes neb yn barotach na Golygydd y Brud a Sylwydd i addysgwriaedd y dyweddiad. Pe y gellid cynnwys pob peth rhifdoli i'w wybod yn un, byddai cymaint â dau gyhoeddiad yn ormod. Ar ol ymddangosiad y cyhoeddiad cyntaf, dylasai pob Cymro edroch yn ofalio

un o'r cyhoeddiadau hyn, sydd yn wahanol i eiddo y cyntaf? Er nas gall roddi hysfyrddch i neb o'r darllenwyr i ni ddechreu y Cylchgrawn hwn gyda sen i rai o'r lleill, hyderus y cydnabyddiant nad yw y sen yn anghuddiant. Rhaid i ni yn y dechreu gyfaddol, nid yn unig nas gallwn, ond hefyd nas csiwio, foddio na'r sawl a ymhyfyrdant mewn canolmalaeth yn unig, nac ychwaith y neb a dueddant i'w pob peth yn gyffredinol. Gwyddom, ystyriaeth, fod y ddau ddisparth hyn o ddyfynion yn llosg; ond er yr hoffem foddio y cyntaf yu hytrach na'r lleill; etto, lawr yw dywedwyr ar onwaith, mai gwell genym, os bydd rhaid, gollu ewyllys da y neill a'r lleill, wrth geisio boddlo math anall o ddyfynion, a gannolant yu unig wrth farn a chydwybodi; ac, thru yn rwydd i ganmol pob teilyngod, a fyddant yu hfi i feio yr hyn na allant ei gymmeradwyo, ar bob achlysur gweddus. Wrth godi y fantol am y waith gyntaf i gyffwrdd ein mawr a'u anghwng drwg a da, lles ac ailes, cydnabyddiwn y rhoddwn hyn led afreidiol i'n sen wrth doro ar rai Cylchgronau eraill, onid am fod llais cyffredinol darllenwyr yn gydonol â ni fod gormod o gyhoeddiadau yn y Gymraeg i gyfartalu â'r defnyddiau a gynhwysant, ac am llyaf fod llawer o honnynt yn afleot, tra y cyfyngant an allu ac eiddo ffechan o'r hyn y

Wyneb ddalen 'Y Brud a sylwydd'.

croesgyfeiriadau i dywys ymchwilyr o'r ffugenw at yr enw priod. Lle ceir nifer o bersonau o'r un enw, defnyddir ffugenwau, dyddiadau, neu enwau lleoedd i wahaniaethu rhyngddynt. Rhestrir manau cyhoeddi a manau argraffu mewn dau fynegai arall, eto gan ddilyn yr wyddor Gymraeg. Cafwyd mwy nag un ffurf ar nifer o enwau lleoedd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis *Llynleifiad* a *Lerpwl* am *Liverpool*, *Pontyfon* a *Cowbridge* am *Y Bont-faen*. Er mwyn cysondeb, felly, defnyddiwyd ffurfiau Cymraeg diweddar yr enwau lleoedd hyn gan ddilyn argymhellion y Dr Elwyn Davies yn *Rhestr o enwau lleoedd / A Gazetteer of Welsh place-names*, (Caerdydd, 1975). Darperir croesgyfeiriadau o'r ffurfiau Saesneg a'r amrywiadau Cymraeg at y ffurfiau cydnabyddedig. Pan gyhoeddwyd *Llyfryddiaeth cylchgronau Cymreig, 1735-1850* ym 1993, awgrymodd un adolygydd y dydid bod wedi cynnwys rhestr gronolegol o gynnyrch gwasg gylchgronol y cyfnod hwnnw. Derbyniwyd ei awgrym, a chynnwys y gyfrol hon restr gronolegol sy'n rhestru pob cylchgrawn Cymraeg a Chymreig y gwyddys amdanynt a gyhoeddwyd rhwng 1735 a 1900, a hynny yn ôl blwyddyn eu sefydlu.

Daeth gwybodaeth newydd i law am dri chylchgrawn a restrir yn *Llyfryddiaeth cylchgronau Cymreig, 1735-1850*, a chynhwysir manylion pellach a llawnach am y cyhoeddiadau hyn mewn *Addendum* ar ddiwedd y gyfrol. Y cyntaf o'r rhain yw *Y Brud a sylwydd* (Rhif 22). Archwiliwyd nifer o gyfrolau o'r *Brud*, a chynhwysai pob copi a welwyd wyth o rifynnau, a gyhoeddwyd rhwng misoedd Ionawr ac Awst 1828. Fodd bynnag, yn ystod haf 2000 prynodd fy nghydweithiwr, y Dr Maredudd ap Huw, gyfrol rwymedig o'r *Brud a sylwydd* mewn siop lyfrau ail-law ym Mangor. Cynnwys y gyfrol honno ddau rifyn yn ychwanegol o'r

cylchgrawn a gyhoeddwyd ym misoedd Medi a Rhagfyr 1828. Hyd y gwyddys, mae'r rhifynnau ychwanegol hyn yn unigryw, a bu'r Dr ap Huw mor garedig â chaniatáu i'r Llyfrgell lungopio'r rhifynnau sydd yn ei feddiant ef.

Un o gylchgronau physica'r Bedyddwyr yn ne Cymru yn ystod blynyddoedd canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd *Y Bedyddiwr*, a ddechreuodd ei yrfa fel *Y Gwir Fedyddiwr* (Rhif 104), ym 1842. Rhifyn 888 o'r ail gyfres am fis Medi 1868 oedd yr olaf y llwyddwyd i ddod o hyd iddo, ond darganfu Mr Stephen Emlyn-Jones rifyn ychwanegol yn y Llyfrgell Ganolog yng Nghaerdydd, tua thair blynedd yn ôl. Rhifyn dwbl am fisoedd Hydref a Thachwedd 1868 yw hwn. Hyd y gellir barnu, hwn oedd y rhifyn olaf i'w gyhoeddi, a chynhwysir gwybodaeth bellach amdano, eto yn yr *Addendum*.

Cynhwyswyd wyth o deitlau y gellid eu hystyried yn 'drychiolaethau' yn *Llyfryddiaeth cylchgronau Cymreig, 1735-1850*, ac un o blith y rhain oedd *Y Morgrugyn* (Rhif 128). Cyn iddo ymdeol o'i ddyletswyddau fel Llyfrgellydd Cynorthwyol yn Adran y

LLYFRYDDIAETH CYLCHGRONAU CYMREIG 1735-1850

A BIBLIOGRAPHY OF WELSH PERIODICALS 1735-1850

Huw Walters

Aberystwyth
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
1983

Wyneb ddalen 'Llyfryddiaeth cylchgronau Cymreig 1735-1850'.

Llyfrau Printiedig yn ystod Gwanwyn 1998, darganfu Mr Brian Lile gopi o'r *Morgrugyn* mewn cyfrol amryw sy'n perthyn i gasgliad mawr John Humphreys Davies, o'r Cwrt-mawr [Rhif silff XAC 909 (J.H.D. 28/10)]. Yr oedd y casgliad pwysig hwn newydd ei filmio fel rhan o'r cynllun meicroffilmio a noddwyd ar y cyd gan Ymddiriedolaeth Mellon drwy'r Llyfrgell Brydeinig. Wrth iddo baratoi cofnodion am y defnyddiau hyn ar gyfer y Gofrestr o Feicroffurfiau Cadwraethol y darganfu Mr Lile y copi hwn o *Y Morgrugyn*. Ceir disgrifiad llawn o'r unig rifyn o'r cylchgrawn bychan ond diddorol hwn yn yr *Addendum*.

Bydd ymchwilyr sy'n gyfarwydd â llyfryddiaeth y wasg gyfnodol Brydeinig yn sicr o weld dylanwadau gweithgarwch y Gymdeithas Ymchwil i Gyfnodolion Victoraid (*Research Society for Victorian Periodicals*) ar y llyfryddiaeth hon. Sefydlwyd y Gymdeithas yn Efrog Newydd ym mis Rhagfyr 1968, a ffurfiwyd caen Brydeinig ohoni ym 1976 gyda'i phencadlys yng Nghanolfan Astudiaethau Victoraid Prifysgol Caerlyr. Rhoes y Gymdeithas ei nawdd i *The Waterloo directory of Victorian*